

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Dewi Jones

Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

5^{ed} o Fai 2015

Presennol: Dewi Jones (Cadeirydd), Alwyn Roberts (is gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Bethan Edwards, Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Alan Jones Evans (Cyngorydd Gwynedd)

Wrth groesawu pawb a chrynhoi gweithgareddau'r flwyddyn soniodd Dewi Jones iddo gychwyn ei flwyddyn fel Cadeirydd yn cael hwyl gyda'r Cynghorwyr eraill yn addurno'r pentref ar gyfer croesawu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mae ychydig o ôl yr addurno hwn i'w weld o hyd yn yr addurniadau oddi mewn i loches bws Tŷ'n Ddôl. Gofid yn ystod y flwyddyn oedd bod grant y fynwent wedi dod i ben ac mae llawer o amser wedi ei roi i geisio addasu ar gyfer hyn er mwyn sicrhau cyllid digonol i gynnal y fynwent i safon. Soniodd hefyd am fabwysiadu Rheolau'r Fynwent, sydd yn gwahardd planhigion a gosodiadau heblaw meini coffa, er mwyn hwyluso'r gwaith o gynnal a chadw. Mynegodd balchder fod Gwefan y Cyngor wedi ei greu a bod y Noson Goffi, gyda chydweithrediad Merched y Wawr a Sefydliad y Merched wedi codi £500 tuag at Tenovus a Chymdeithas Alzheimers. Dywedodd fod Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn falch iawn o fod yn rhan o brosiect Canolfan Henblas a agorodd ym Medi 2014. Eisoes cynhaliwyd hyfforddiant yno i Gynghorau Penllyn ar drosglwyddo Asedau a Chyfrifoldebau o dan nawdd Un Llais Cymru. Cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd arall yn ddiweddarach gyda Dyfed Edwards, Arweinydd Cyngor Gwynedd, yn rhannu ei ddehongliad o Bapur Gwyn y Llywodraeth ar ail drefnu llywodraeth leol. Mae ei flwyddyn wedi gorffen gyda chychwyn y broses o werthu Cwt yr Hers. Diolchodd Dewi Jones i bawb am eu cydweithrediad ar hyd flwyddyn brysur, a diolchodd i'r Swyddogion am eu gwaith.

- 1 Cadarnhawyd Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 6/5/2014.
- 2 Etholwyd **Alwyn Roberts** yn Gadeirydd am y flwyddyn 2015-16.
- 3 Etholwyd **Beryl Hughes Griffiths** yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2015-16.
- 4 Penodwyd is-bwyllgor Cyllid : **Huw Antur, Dewi Jones, Alwyn Roberts, Bethan Edwards, Lis Puw.**
- 5 Penodwyd is-bwyllgor mynwentydd: **Bethan Edwards, Lis Puw, Huw Pierce Roberts, Ian Trow, Karl Jones, Arwel LL Jones, Alan Jones Evans.**
- 6 Enwebwyd cynrychiolydd i gyfarfodydd ardal Un Llais Cymru: **Huw P Roberts**
- 7 Cadarnhawyd enw'r cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol O M Edwards am y cyfnod presennol: **Catrin Roberts.**
- 8 Enwebwyd 2 gynrychiolydd ar Bartneriaeth Penllyn: **Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths.**

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Dewi Jones

- 9 Adolygwyd a chadarnhawyd Rheolau Sefydlog y Cyngor (sy'n cynnwys Côt ymddygiad yr aelodau).
- 10 Adolygwyd a chadarnhawyd Rheoliadau Cyllidol.
- 11 Adolygwyd a chadarnhawyd Polisi Amgylcheddol y Cyngor Cymuned.
- 12 Adolygwyd a chadarnhawyd Polisi Cyfle Cyfartal y Cyngor.
- 13 Adolygwyd a chadarnhawyd trefniadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
- 14 Adolygwyd a chadarnhawyd Trefn Cwynion y Cyngor.
- 15 Adolygwyd Strategaeth Buddsoddi'r Cyngor ac awdurdodwyd y Swyddog Ariannol i drosglwyddo £1,000 i'r Cyfrif Cadw.
- 16 Cadarnhawyd y Cytundeb rhwng y Cyngor Cymuned fel aelod o Bartneriaeth Penllyn â Chyngor Gwynedd.
- 17 Adolygwyd rhestr o eiddo ac asedau'r Cyngor; cytunwyd i ychwanegu'r Toiledau at y rhestr a thynnu Cwt yr Hers.
- 18 Adolygwyd a chadarnhawyd y trefniadau yswiriant gyda Chwmni Zurich.
- 19 Cadarnhawyd y Mantolenni ac Adroddiad y Swyddog Ariannol ar gyfer yr Archwilwyr.
- 20 Cadarnhawyd John Roberts fel Archwilydd Mewnol gan ofyn iddo edrych ar fater Gwahaniaethau.
- 21 Cadarnhawyd dyddiad cyfarfodydd 2015-16 :

Dyddiadau Cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanuwchllyn 2015-16 am 7.30pm yn Neuadd Bentref Llanuwchllyn:

14/4/15	3/11/15
5/5/15	1/12/15
9/6/15	5/1/16
7/7/15	2/2/16
1/9/15	1/3/16
6/10/15	